**LC425**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**The National Assembly for Wales**

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2002**

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhagnodi dangosyddion y cyfeirir atynt er mwyn mesur perfformiad y cynghorau sir, y cynghorau bwrdeistref sirol ac awdurdodau parciau cenedlaethol (fel awdurdodau gwerth gorau) wrth iddynt arfer eu swyddogaethau.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes unrhyw faterion wedi'u nodi fel materion y byddai angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

**Sylwadau Cyffredinol**

**Nodyn Esboniadol – y trydydd paragraff**

Mae'r testun Saesneg braidd yn gamarweiniol fan hyn wrth ddweud bod y manylion am y dangosyddion perfformiad i'w cael yn erthygl 4.

**Nodyn Esboniadol – y paragraff terfynol**

Byddai'n ddefnyddiol nodi pwy fydd yn cyhoeddi'r canllawiau.

**Erthygl 4**

Holir a ddylid hepgor y gair "listed" yn y fersiwn Saesneg.

**Yr atodlenni – y canllawiau**

Fel yr esboniwyd yn y nodyn esboniadol, mae'r manylyn ar gyfer pob dangosydd a roddwyd yng Ngorchymyn 2001 yn cael ei ddisodli â chanllawiau.

Bydd yn angenrheidiol cydnabod felly, wrth gymhwyso’r Gorchymyn hwn, mai dim ond canllawiau yw’r rhain bellach ac nad oes iddynt y grym cyfreithiol a oedd yn perthyn iddo’n wreiddiol.  Gall hyn fod yn arbennig o berthnasol mewn perthynas ag Atodlen 6 sy’n defnyddio termau megis “ffyrdd sy’n sensitif i draffig” a “difrod peryglus” y rhagdybir y bydd angen dibynnu ar y canllawiau i’w dehongli.  Gall yr un peth fod yn gymwys hefyd mewn perthynas â chategoreiddio tramgwyddau “treisgar” a throseddau “cerbydau” yn Atodlen 12.

**Atodlen 1– 1.4**

Buasai hyn wedi bod yn symlach pe bai’r cyfeiriad mewn cromfachau at “(fel canran)” wedi cael ei ddileu a “ganran” wedi cael ei roi yn lle “gyfran”.

**Atodlen 4**

Buasai wedi bod yn ddymunol petai’r diffiniad o “annedd” wedi cael ei gynnwys yn y prif destun yn hytrach nag mewn nodyn.

**Atodlen 9 – 9.3**

Mae’r gair ‘flwyddyn’ wedi’i gamsillafu.

**Atodlen 11 – 11.1**

Dylai “communication” yn y testun Saesneg fod yn “communicated”.

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

26 Chwefror 2002